

## Dull Gweithredu Diogel Cyffredinol ar gyfer Adeiladau Defnyddio adeiladau yn unol â Chamau Rheoli Covid-19

Mae'r dull gweithredu diogel cyffredinol hwn ar gyfer adeiladau yn berthnasol i bob adeilad lle darperir addysgu a chefnogaeth ac efallai y bydd dulliau gweithredu ac asesiadau risg lleol y mae angen eu dilyn hefyd.

### 1. GWYBODAETH GYFFREDINOL

Mae'r Dull Gweithredu Diogel hwn yn manylu ar drefniadau cyffredinol Covid-19 yn adeiladau'r Brifysgol.

#### a. Asesiadau Risg a Gweithdrefnau Addysgu ac Wyneb yn Wyneb

Yn achos gweithgareddau addysgu cefnogir y Dull Gweithredu Diogel hwn ar gyfer Adeiladau gan Asesiad Risg cyffredinol ar gyfer gweithgareddau addysgu 'GWYRDD' a chan weithdrefn gweithgareddau Wyneb yn Wyneb ar y Campws. Gellir ymgymryd â gweithgareddau GWYRDD yn llawn yn unol â chanllawiau diogelu Covid-19, a ddiffinnir fel:

Gweithgareddau y gellir eu cyflawni'n ddiogel drwy gadw pellter cymdeithasol o 2 fetr o leiaf mewn lleoliadau addas neu yn yr awyr agored, fel arfer am ddim mwy na 2-3 awr, ac sydd ddim yn dibynnu ar unrhyw gamau lliniaru na chamau rheoli Covid ychwanegol er mwyn cynnal y gweithgaredd yn ddiogel

**SYLWCH:** Mae Asesiadau Risg Covid-19 penodol, a gynhyrchir gan yr Ysgol/Gwasanaeth, mewn ymgynghoriad â'r adran Iechyd a Diogelwch ganolog ac eraill, fel y bo'n berthnasol, yn ofynnol ar gyfer gweithgareddau addysgu â lefel risg 'Coch' ac 'Oren'. Bydd y rhain yn ychwanegol at yr asesiadau risg safonol ar gyfer y gweithgaredd.

Mae dwy ddogfen atodol sef; Covid-19: **Catogoreiddio Risgiau Gweithgareddau "Wyneb yn Wyneb"** sy'n manylu ar ddisgrifiadau'r categorïau gwyrdd, oren a choch a'r **Protocol ar gyfer Gweithgareddau Wyneb yn Wyneb ar y Campws**. [Mae'r ddwy ddogfen ar gael yma.](#)

#### b. Gweithgarwch Ymchwil

Lle bo hynny'n berthnasol, dylid cyfeirio at Asesiadau Risg a phrotocolau Covid-19 sy'n benodol ar gyfer ymchwil yn yr adeiladau hynny lle gwneir gweithgarwch ymchwil cymeradwy ar y safle.

#### c. Darparu Gwybodaeth Gyffredinol am Iechyd a Diogelwch a Covid-19

- Cyn dychwelyd i'r campws:
  - Dylai staff gwblhau Sesiwn Gynefino ar-lein: Iechyd a Diogelwch Gweithio o dan amodau Covid-19. Rhaid i staff mewn grŵp iechyd 'mewn perygl' roi gwybod i'w Rheolwr Llinell fel y gellir cynnal asesiad penodol ar gyfer staff sydd 'mewn perygl' oherwydd Covid-19 trwy eu cyfeirio at yr adran Iechyd Galwedigaethol cyn dychwelyd i'r campws
  - Bydd myfyrwyr yn cael gwybodaeth gyffredinol am iechyd a diogelwch sy'n cynnwys camau rheoli Covid-19. Dylai myfyrwyr sy'n teimlo eu bod mewn grŵp iechyd 'mewn perygl' gysylltu â'u hysgol a/neu'r Gwasanaethau Myfyrwyr

- Bydd arwyddion ym mhob adeilad yn cyfeirio defnyddwyr ar hyd llwybrau diogel ac yn atgoffa defnyddwyr sut mae ymddwyn yn ddiogel o ran Covid-19

#### **d. Gwybodaeth leol Iechyd a Diogelwch Coleg / Ysgol / Gwasanaeth**

Bydd Ysgolion, Colegau a Gwasanaethau yn darparu gwybodaeth iechyd a diogelwch ychwanegol yn lleol, yn ôl yr angen. Er enghraifft, trefniadau mynediad i adeiladau penodol, gweithdrefnau awdurdodi penodol.

#### **e. Isadeiledd Adeiladau**

- Mae'r Gwasanaethau Eiddo a Champws wedi parhau i wneud gwaith cynnal a chadw cyffredinol a statudol yn ystod y 'cyfnod clo'
- O ddydd Llun i ddydd Gwener, rhwng 8.45am a 5pm dylid rhoi gwybod am unrhyw bryderon mewn perthynas ag adeiladau i Ddesg Gymorth y Gwasanaethau Eiddo a Champws [maintenance@bangor.ac.uk](mailto:maintenance@bangor.ac.uk) neu drwy ffonio estyniad 2783, neu 01248 382783
- Mae hynny'n cynnwys ceisiadau am gyflenwadau ychwanegol o hylif diheintio dwylo, cynhyrchion glanhau mannau cymunedol ac ati
- Y tu allan i'r oriau hyn, neu pan fydd y Brifysgol ar gau, mae'r adran Ddiogelwch yn gofalu am y Ddesg Gymorth a dylid rhoi gwybod am unrhyw geisiadau **dros y ffôn yn unig**. Bydd y galwadau'n cael eu dargyfeirio'n awtomatig

## **2. WRTH DDEFNYDDIO POB ADEILAD**

**Rhaid i bob gweithgaredd fod yn weithgaredd Risg Covid-19 'GWYRDD' oni bai bod Asesiad Risg ar wahân wedi ei lunio ac wedi'i gymeradwyo gan Bennaeth Ysgol, Cyfarwyddwr Gwasanaeth Proffesiynol neu wedi ei gymeradwyo gan yr arweinydd ar y Pwyllgor Gweithredu.**

#### **a. Gorchuddion Wyneb**

- Mae'n ofynnol i bob aelod staff, myfyriwr ac ymwelydd wisgo gorchudd wyneb yn adeiladau'r Brifysgol
- Efallai na fydd angen gwisgo gorchudd wyneb i wneud rhai gweithgareddau gwyddonol os ydynt yn peri mwy o risg, manylir ar ofynion penodol yn nhrefn weithredu'r labordy
- Yn ystod darlithoedd a seminarau, disgwylir i fyfyrwyr wisgo gorchuddion wyneb ond nid oes angen i ddarlithwyr a hyfforddwyr wneud hynny gan fod mesurau lliniaru eraill ar waith (e.e. cyflwyno o bellter sydd dros 2m neu o'r tu ôl i darian Berspecs)
- Mae'r eithriadau o ran gwisgo gorchudd wyneb wedi eu nodi yn Adran Tri canllawiau Llywodraeth Cymru sy'n nodi rhestr o "resymau dilys" dros beidio â gwisgo gorchudd

#### **b. Cyngor Cyffredinol wrth ddefnyddio Gorchuddion Wyneb**

- Cyn gwisgo gorchudd wyneb, dylech olchi eich dwylo'n drylwyr â sebon a dŵr am 20 eiliad neu ddefnyddio hylif diheintio dwylo. Sychwch eich dwylo'n drylwyr cyn gwisgo'r gorchudd wyneb
- Wrth wisgo gorchudd wyneb, dylech osgoi cyffwrdd â'ch wyneb neu'r gorchudd wyneb, oherwydd gallai halogi'r gorchudd
- Ni ddylech wisgo gorchudd wyneb am eich gwddf na'i dynnu i lawr o dan y trwyn
- Dylid newid gorchuddion wyneb pan fyddant yn llaith neu os cânt eu cyffwrdd

- Parhewch i olchi neu ddiheintio eich dwylo yn rheolaidd
- Os oes modd golchi defnydd y gorchudd wyneb, golchwch efo yn unol â chyfarwyddiadau'r gwneuthurwr. Os nad oes modd ei olchi, taflwch y gorchudd wyneb yn ofalus i'ch bin sbwriel arferol a helpwch i gadw Cymru'n Daclus
- Golchwch eich dwylo neu ddefnyddio hylif diheintio dwylo ar ôl tynnu'r gorchudd wyneb

**c. Cyrraedd / Gadael**

- Caiff defnyddwyr eu hatgoffa, os oes ganddynt unrhyw symptomau Covid-19, fod rhaid iddynt beidio â mynd i mewn i'r adeilad
- Dylai defnyddwyr (staff a myfyrwyr) fod yn ymwybodol o unrhyw drefniadau mynediad lleol e.e. defnyddio cardiau mynediad electronig, mynedfeydd / allanfeydd adeiladau
- Os oes pobl eraill yn y cyffiniau, rhaid i ddefnyddwyr sicrhau eu bod yn cadw pellter cymdeithasol o 2m
- Rhaid defnyddio'r hylif diheintio dwylo sydd wedi ei ddarparu wrth fynd i mewn i adeiladau ac wrth eu gadael

**d. Lifftau**

- Un person yn unig ddylai ddefnyddio lifft ar y tro (oni bai am ddarparwyr cymorth)
- Peidiwch â defnyddio lifft os yw'r larwm tân yn canu

**e. Mannau Cylchrediad**

- Rhaid dilyn arwyddion sy'n dangos systemau unffordd, trefn blaenoriaeth, a gwybodaeth am gadw pellter cymdeithasol bob amser
- Pan fo trefn blaenoriaeth ar waith ar risiau a choridorau rhaid i'r unigolyn heb flaenoriaeth symud yn ôl i bwynt lle gall y person arall basio, gan gadw pellter cymdeithasol diogel
- Os yw defnyddwyr yn dod ar draws rhywun arall mewn ardal lle nad oes trefn flaenoriaeth, dylent gytuno ar y cyd pa gamau i'w cymryd i sicrhau bod modd cadw pellter cymdeithasol
- Caiff defnyddwyr eu hannog i beidio â stopio i siarad ag eraill ar risiau a choridorau

**f. Defnyddio eich Swyddfeydd a'ch Desgiau eich hunain**

- Defnyddwyr sy'n gyfrifol am lanhau eu swyddfeydd eu hunain
- Dylai swyddfeydd fod ar gyfer un person yn unig (neu hyd at ddau aelod o'r un aelwyd) oni bai yr asesir ac y cytunir fel arall

**g. Swyddfeydd a Rennir**

- Dylai staff drefnu gyda chydweithwyr i sicrhau mai dim ond un person sydd yn y swyddfa yn ystod y dydd, oni bai bod y swyddfa wedi'i hasesu ac y cytunwyd ar gapasiti gwahanol
- Lle rhennir swyddfeydd, mae hyd yn oed yn bwysicach eu bod yn cael eu glanhau, a chaiff staff eu hannog i lanhau pwyntiau cyffwrdd wrth gyrraedd a gadael
- Mae deunyddiau glanhau ar gael gan y Gwasanaethau Eiddo a Champws

#### **h. Awyru**

- Lle bo modd, dylid agor ffenestri i adael digon o awyr iach i mewn i ystafelloedd

#### **i. Glanhau Adeiladau**

- Bydd y Gwasanaethau Eiddo a Champws yn glanhau mannau y mae pobl yn cerdded trwyddynt yn rheolaidd gan gynnwys drysau ar hyd coridorau, y prif bwyntiau cyffwrdd ar hyd llwybrau cerdded, a'r toiledau. Bydd yr amserlen lanhau yn adlewyrchu'r niferoedd sy'n defnyddio'r adeilad
- Bydd darlithfeydd sy'n cael eu hamserlennu'n cael eu glanhau rhwng pob carfan sy'n eu defnyddio
- Bydd deunyddiau glanhau ar gyfer mannau cymunedol ar gael mewn adeiladau ac mewn darlithfeydd i chi eu defnyddio eich hunain i lanhau

#### **j. Offer a Rennir**

- Gofynnir i ddefnyddwyr lanhau offer a rennir cyn ac ar ôl eu defnyddio

#### **k. Llungopiwyr**

- Mae posteri wedi eu gosod yn egluro sut i'w defnyddio a'u glanhau yn ddiogel
- Gofynnir i ddefnyddwyr sychu arwynebau gyda'r cadachau a ddarperir

#### **l. Diheintio Dwylo**

- Mae pwyntiau hylif diheintio dwylo wrth fynedfa / allanfa pob adeilad
- Darperir sebon gwrthfacteria / gwrthfirol yn y toiledau
- Mae tyweli papur ar gael mewn toiledau ac mae'r sychwyr dwylo wedi'u hynysu'n drydanol
- Mae posteri a gwybodaeth sy'n dangos sut i olchi dwylo neu ddefnyddio hylif diheintio dwylo yn gywir wedi eu darparu ym mhob adeilad
- Caiff defnyddwyr eu hatgoffa i olchi eu dwylo yn rheolaidd yn unol â'r canllawiau

#### **m. Mannau Lles**

- Dylid ystyried ceginau a mannau gorffwys a rennir fel llefydd i'w defnyddio gan un person ar y tro oni bai y gellir cadw pellter cymdeithasol o 2m. Rhaid cadw at y capasiti a ddangosir
- Dylai defnyddwyr lanhau'r prif bwyntiau cyffwrdd mewn mannau lles a rennir cyn ac ar ôl eu defnyddio
- Dylai defnyddwyr, os yn bosibl, ystyried dod â bwyd a diod sydd wedi'u paratoi ymlaen llaw a chewch eich annog i fwyta / yfed yn eich man gwaith / ardal astudio eich hun yn ystod cyfnodau prysur
- Dylai defnyddwyr fynd â llestri / cyllyll a ffyrc adref i'w golchi ar ddiwedd y dydd
- Bydd staff domestig y Gwasanaethau Eiddo a Champws yn glanhau toiledau

### **3. TREFNIADAU ARGYFWNG (gan gynnwys os ydych yn dioddef o Symptomau Covid-19)**

#### **a. Gadael yr Adeilad pe bai Tân neu Argyfwng**

Os yw'r larwm tân yn canu, dylai defnyddwyr wneud y pethau canlynol:

- Gadael yr adeilad yn ôl yr arfer gan ddefnyddio'r grisiau (peidiwch byth â defnyddio'r lifft) - gwisgwch orchudd wyneb
- Ceisio cadw pellter cymdeithasol yn y Man Ymgynnull
- Peidio byth â mynd yn ôl i'r adeilad nes cael cyfarwyddyd i wneud hynny
- Defnyddio hylif diheintio dwylo wrth fynd yn ôl i mewn i'r adeilad
- Sylwch: Mae'r Pwyntiau Lloches yn parhau i fod yn weithredol ar gyfer unrhyw un sy'n methu defnyddio'r grisiau i adael yr adeilad

**b. Cymorth Cyntaf**

- Mae darpariaeth Cymorth Cyntaf ar gael trwy'r adran Ddiogelwch, ac mewn rhai achosion gan Staff Cymorth Cyntaf yn lleol

**c. Profi, Orlhain a Diogelu**

- Ni ddylai staff a myfyrwyr ag unrhyw symptom Covid-19 ddod i'r campws
- Os oes aelod o staff neu fyfyrwr yn datblygu symptomau tra bônt ar y campws, dylent adael yr adeilad yn defnyddio'r llwybr byrraf a'r mwyaf clir, mynd adref a threfnu prawf, a hunanynysu am 10 diwrnod, neu nes cael canlyniad negatif i'r prawf a bod y symptomau wedi clirio

I drefnu prawf:

- Dylai staff a myfyrwyr sy'n dymuno defnyddio'r uned brofi leol yn Ardal Bangor ffonio 03000 851480
- Ar gyfer staff a myfyrwyr na allant gael mynediad at y gwasanaeth hwn, gellir archebu pecyn profi trwy ffonio 119. Gellir cael profion yn ardal Llandudno a Glannau Dyfrdwy trwy ffonio'r rhif hwn hefyd
- Os ydych yn cael canlyniad positif cefnogwch yr ymdrechion Profi, Orlhain a Diogelu trwy ddarparu unrhyw fanylion cyswllt
- Os oes aelod o staff neu fyfyrwr yn cael prawf Covid-19 positif dylent roi gwybod i'r Brifysgol trwy: <https://apps.bangor.ac.uk/covid/> a rhoi gwybod hefyd i'w Pennaeth Ysgol neu Reolwr Llinell